# Cwmni

Papur Sir Caerffili: Cwm Aber, Ebwy, Rhymni a Sirhywi

Rhifyn 214 Pris 80c Mis Gorffennaf 2019




## Pen blwydd Hapus Sali Mali

# PWYLLGOR A SWYDDOGION

*Ariennir yn rhannnol gan* ***Lywodraeth Cymru***


**Cadeirydd:** Robert Dutt **Ysgrifennydd Cofnodion:** Ann Lewis

**Trysorydd:** Eyron Thomas e.thomas119@btinternet.com

**Golygydd:** Ben Jones benamary2000@yahoo.co.uk 02920 862428 07891916046

**Ysgrifennydd:** Marian Fairclough faircloughmarian@gmail.com 02920 885151

**Cynorthwy-ydd:** Jan Penney **Dosbarthu a Golygydd Lluniau:** Mary Jones

**Y Pwyllgor:** Eirlys Thomas, Gareth W.Williams, Dilys Williams, Jenni Jones-Annetts

**Ieuenctid:** Morgan Roberts, Swyddog Prosiect Llais, **Hysbysebu:** Bethan Jones, Menter Iaith

**Gweplyfr/ Facebook:** Papur Bro Cwmni

**Gwefan:** menter aerffili.cymru/ Cwmni

**e-bost**: Golygydd@papurcwmni.cymru/ benamary2000@yahoo.co.uk

**Cedwir yr hawl i gwtogi neu newid erthyglau neu luniau yn unol â gofynion golygyddol.**

**Argraffu Tower Print, Uned 12a,Ystâd Ddiwydiannol Tŷ Bedwas ,Caerffili, CF83 8DW**


# Oedfaon Capeli Sir Caerffili

## Mis Gorffennaf

### Bedyddwyr Tonyfelin

7fed 10.30 a 6.00 : Parch Milton Jenkins

14eg 10.30 Dr J.Gwynfor Jones

6.00 Parch Glyn Tudwal Jones

21ain : Yn Bethel trwy'r dydd

28ain 10.30 a 6 y.h. Mr Mansel Jones

### Penuel, Rhymni

7fed Mr G.Leyshon

14eg Parch D.A.Jones

21ain Dr G.Jones

28ain Parch Evan Morgan

### Annibynwyr, Bethel

7fed 10.30 Parch Hywel Davies

14eg 10.30 Parch Robert Owen Griffiths

21ain 10.30 a 6 y.h I'w gadarnhau

28ain 10.30 a 6 y.h. Gyda Tonyfelin

### Capel y Groeswen

7fed o Orffennaf

3:00

Mr Neil Linton and Family

## Mis Awst

Awst 4ydd 10.30 a 6.00 Tonyfelin

Awst 11eg Bethel:10.30 Dr Phil Ellis 6.00 Gareth Hughes

Awst 18fed 10.30 a 6.00 Tonyfelin

Awst 26ain Bethel 10.30 Dr J Gwynfor Jones

6.00 Anne O'Neill

# Aled Mills



Mae Aled yn gweithio fel cynhyrchydd i gwmni teledu “Boom Cymru” ac yn canolbwyntio ar raglenni i blant hŷn. Roedd Aled yn yr Ŵyl Cyfryngau Celtaidd yn Aviemore ym mis Mehefin, lle enwebwyd y cwmni am sawl gwobr. Ond, yn ddiweddar, mae e wedi ennill dwy wobr yn Llundain fel cynhyrchydd y gyfres i blant "Prosiect Z" (cyfres antur ddychrynllyd i bobl ifanc ar S4C).

1.Children's BAFTA- Rhaglen Adloniant Orau 2018

2."Royal Television Society Award" - Rhaglen Blant Orau 2019'

Bydd ein darllenwyr yn cofio Aled, sy’n fab i Gerry a Mari Mills ac yn frawd i Gethin, ac a fynychodd Ysgol Ifor Bach a Chwm Rhymni.



Cwmni Cwm ni

**Ar y ffordd i Eisteddfod Genedlaethol, Llanrwst**

# Y Gwcw

**Safle’r Gwyndy, Ysgol Gyfun Cwm Rhymni**

Nos Lun, 8fed o Orffennaf

7:30

**Eglwys Mynydd Seion,Casnewydd**

Nos Fawrth, 16eg o Orffennaf

7:30

Tocynnau £4

Cyfieithwyd y sgript drwy ganiatad y dramodydd a Lazy Bees Scripts



# Cofeb Ieuan ap Iago

Ychydig dros ddeng mlynedd yn ôl gosodwyd plac ar Neuadd y Gweithwyr, Caerffili, i gofio man geni’r gŵr a ysgrifennodd eiriau'r Anthem Genedlaethol. Fodd bynnag, mae nifer o bobol wedi synnu nad oedd cofeb sylweddol yng Nghaerffili i un o’n meibion mwyaf enwog.

Dechreuodd Cyngor y Dref symud pethau ymlaen y llynedd pan wahoddwyd nifer o artistiaid i gyflwyno dyluniadau. Enillydd y gystadleuaeth, a oedd dan oruchwyliaeth y Cyngor Sir, oedd yr artist Cymraeg Rubin Eynon, sydd â phrofiad hir o gynhyrchu celf gyhoeddus.




Mae’r dyluniad yn cyfuno ffurfiau’r ddraig â thelyn gyda bocs seinfwrdd y delyn wedi’i lunio o eiriau’r Anthem. Pan ddadorchuddir ef ddiwedd y flwyddyn hon neu ddechrau blwyddyn nesaf, gobeithir y bydd yn nodwedd y bydd trigolion yn ymfalchïo ynddi yn ogystal â chreu mwy o ddiddordeb i ymwelwyr ..... am le ar gyfer “selfie”!

Disgwylir y caiff ei leoli y tu blaen i Ganolfan Gymunedol y Twyn.

*Diolchwn i Gyngor Tref Caerffili am ganiatâd i gynnwys yr uchod oddi ar eu Cylchlythyr*

Clwb Darllen Cwm*ni*

# "Perthyn" gan Sian Northey




Dydd Llun cynta'r mis a dyma ffyddloniaid y clwb darllen yn barod i fynegi eu barn am lyfr y mis.

Mae'r stori'n adrodd hanes bywyd Helen a'i phroblem anferth sy'n dylanwadu'n ddirfawr ar ei gallu i greu perthynas normal. Symud ymlaen i fywyd newydd bob pymtheg mlynedd yw ei ffordd o ymdopi, ond mae dyfodiad mab yn newid ei phersbectif. Trwy ei heglurhad i'w mab John rydym yn dysgu a dechrau deall ei chyfrinach. Dydy'r mab ddim yn credu ei fam, ond wrth gael merch ei hun, sydd wedi etifeddu'r un cyflwr â'i mam-gu, daw i dderbyn y stori.

Roedd adwaith y grŵp darllen yn amrywiol. Tra bod pawb yn gwerthfawrogi safon yr ysgrifennu, teimlai rhai nad oedd y stori yn rhyw gredadwy iawn. Doedd aelodau eraill ddim yn siŵr am yr 'Epilog'. Yn sicr, roedd "Perthyn" yn arwain at drafodaeth fywiog iawn.

"Wedi rhoi lan hanner ffordd" oedd barn un a "Diolch byth mai dim ond cant a hanner o dudalennau" meddai un arall. Roedd lleiafrif yn teimlo'n ddigon cryf i roi ond dau farc allan o ddeg i'r llyfr, sylwadau oedd efallai braidd yn llym. Serch hynny, roedd y gweddill ohonom wedi mwynhau "Perthyn" ar y cyfan ac yn cytuno ei bod yn sicr yn werth ei darllen.

Rhowch gynnig arni eich hunan a darganfod y rheswm am fywyd unigryw Helen a'i theulu.

A phrynhawn Llun, Gorffennaf 1af, bydd y criw yn trafod "Agor Cloriau", hunangofiant yr addysgwr John Phillips. Beth am ymuno â ni ar ail lawr llyfrgell newydd tref Caerffili?

*Mary Jones*

## Gwylwyr yn creu sianel bersonol ar S4C Clic

Mae datblygiadau newydd ar S4C Clic yn golygu bod modd i ddefnyddwyr greu sianel bersonol eu hunain. I gofnodi ewch i wefan "S4C Clic"

Yn rhan o'r datblygiadau bydd modd i ddefnyddwyr greu proffiliau ar gyfer y teulu, greu rhestr bersonol o raglenni a pharhau i wylio rhaglen o'r un man.

Yn ystod mis Mehefin bydd gofyn i ddefnyddwyr gofrestru er mwyn defnyddio adnoddau S4C Clic. Bydd unrhyw un a fydd yn cofrestru rhwng 27 Mai i 10 Awst yn cael y cyfle i ennill Teledu Clyfar Sgrîn Lydan 49". Dim ond unwaith sydd angen cofrestru ac mae'n cymryd munud neu ddwy yn unig.

Dros y misoedd diwethaf mae S4C wedi rhyddhau nifer o gyfresi Bocs Set ar S4C Clic. Mae'r cyfresi wedi profi i fod yn hynod llwyddiannus gyda nifer o glasuron fel Con Passionate, Y Gwyll a 35 Diwrnod yn dod i'r brig. Mae nifer o hen gyfresi hefyd fel Nyth Cacwn a Tair Chwaer wedi dal dychymyg a chreu atgofion i'n gwylwyr.





# Y Gwcw









# ‘Wnco Man ‘Co -1

Ble ddewch chi o hyd i bobol sy’n galw coeden yn golfen; nofio yn oefad, bod menyw feichiog yn erfyn? Wrth fynd i nôl rhywbeth maen nhw’n mynd i’w ercyd e? Cadw mwstwr yw gwneud gormod o sŵn; “cwato” yw cuddio, “cymoni” (cymhennu?) yw tacluso a “cwmpni” yw cwmni.


Dywedwyd yn un o gyfarfodydd Hanes Cwm*ni* yng Nghlwb Rygbi Penallta bod sawl ardal yn siŵr taw ganddyn nhw mae’r Gymraeg buraf a’r ymadroddion cyfoethocaf. Nid peth newydd yw hyn: 800 mlynedd yn ôl honnodd Gerallt Gymro taw yn ne-orllewin Cymru - ardal ei fagwraeth, gyda llaw - y siaredid y Gymraeg orau.

Cytunaf fod yr hen Gerallt yn weddol agos i’r marc ond, i fi, y gweundir cyfoethog hwnnw rhwng Cwm Tawe a Dyffryn Aman piau hi! A blas o’r iaith honno a geir uchod. Gyda llaw, y pwynt daearyddol fan hyn yw: dywed daearyddwyr fod “cwm” yn fwy serth na “dyffryn” ac mae hynny yn wir o gymharu nodweddion y ddau gwm hyn.

Cefais fy atgoffa o nodweddion iaith yr ardal hon wrth ddarllen, yn ddiweddar, atgofion cynnar Yr Athro Derec Llwyd Morgan, “Bachgendod Isaac” ac i raddau, hefyd lyfr y consuriwr Eirian Wyn. Magwyd cyn Is Ganghellor y brifysgol yn Aberystwyth yng Nghefn-Bryn-Brain, cymuned ddestlus fach rhwng dau bentref mwy adnabyddus, Cwmllynfell a Brynaman. Eirian Wyn yntau wedi tyfu lan yn y Banwen, ardal o Frynaman Isaf (mae’r “Isaf” yn bwysig, wrth gwrs!) sydd ar ymyl yr hen Gae Ffair rhwng capeli crand Ebeneser a Siloam. Un arall o’r ardal sydd newydd gyhoeddi ei hunangofiant yw John Phillips o Waun-Cae-Gurwen. Pentrefi eraill sy’n sefyll ar y rhostir enwog hwn yw Cwm-gors a Tai’r Gwaith. Mae’r tair hunangofiant yn ein hatgoffa o eiriau ac ymadroddion yr ardal. Rhyfedd yw darllen rhai o ddywediadau Derec Llwyd, a dweud y gwir, lle mae’n gweu’r dafodiaith drwy ei iaith glasurol-academaidd.

Diddorol nodi mor wahanol yw rhai o’r geiriau ond, llawer mwy lliwgar, yw rhai o ymadroddion yr ardal.

Roedd mwyafrif y glowyr yn ymfalchïo yn eu sgiliau garddio. Roedd resymau economaidd am hynny wrth iddyn nhw gynhyrchu tatws, bresych a phob math o ddanteithion eraill. Ond beth am yr ysfa i dyfu blodau? Allech chi ddim eu bwyta nhw. Ond tybed oedd yn chwant creu rhywbeth hardd gan ddynion a dreuliau eu horiau gwaith mewn twll gwlyb, llychlyd a pheryglus. Y peth rhwyddaf i’w dyfu oedd rhiwbob, doedd dim angen sylw arno o gwbl. A petai rywun yn gofyn i arddwr sut oedd yr ardd, ac yntau ar ei hôl hi, yr ateb, pob amser oedd, “Wel ma’r rhiwbob yn dod 'mlân yn net!”




Os oedd rhywun yn cyrraedd yn rhy gynnar dywedwyd ei fod “yno cyn ‘i fod e’n gall” ac yn y Rhondda clywais ddweud ei fod *“there before he’s wise”*. Magu pwysau oedd person a chanddo ormod o floneg ac am rywun sydd yn rhy ofalus â’i arian ei fod â’i “lygad ar y geiniog”. Arferid dweud pan fo rhywun yn gorlenwi rhywbeth oedd bod “popeth yn dal llai na’i lawn” ac mai “brawd mogu yw tagu”. Rhywbeth tebyg oedd “man a man boddi mewn dŵr mawr â dŵr bach” *(“in for a penny, in for a pound”* efallai yn Saesneg). Mae didoreth yn air glywais i yn ardal Pontypridd ond yng Nghwm Tawe bydden ni’n dweud mai rhywun oedd eisiau “shapo’i stwmps” oedd rhywun “didoreth”.

Roedd rhywun *cheeky* yn ecer (hegr?) neu’n ewn os oedd e’n *forward* . “Whilia” Cymraeg oedden ni yn hytrach na siarad yr iaith. Ffurf ar “chwedleua” yw hyn, mae’n debyg. Yn yr un modd os oedd gennych ormod i’w gario oedd bod coeled gennych h.y. “cofleidiad”. Wrth gnoi darn mawr o afal fyddech chi’n cymryd hansh neu sbolyn. Cnepyn oedd lwmpyn mawr; a gwneud “cleme” oedd tynnu wynebau neu gymryd arnoch eich bod yn well nag oeddech chi mewn gwirionedd. Wrth wneud ffŷs neu’n wirioneddol gyflawni llwyth o waith y term oedd “gwneud melin ac eglwys”.

Dywediad sy’n bendant yn tarddu yn ardaloedd y gweithfeydd glo yw dweud, pan fod rhywun yn gwneud rhywbeth oedd yn anobeithiol fod “gobaith caneri” ganddo fe. Cyfeiriad, wrth gwrs, i’r arfer o ddefnyddio’r aderyn bach i ddod o hyd i nwyon gwenwynig y *choke damp* dan y ddaear – roedd creadur yn syrthio’n farw wrth ddod o hyd i’r nwy, ac felly pa obaith oedd ganddo!

Faint o’n darllenwyr ni allai gynnig enghreifftiau pellach o ddywediadau ac ymadroddion yr iaith? Dywedwyd bod y Gymraeg draddodiadol fel dŵr y ffynnon, tra bod iaith fwy safonol fwy fel dŵr tap. Beth am rannu gyda ni gyfoeth iaith eich ffynnon chi? Gyrrwch air at y Golygydd, manylion cyswllt ar dudalen 2.

A beth, meddech chi, yw ystyr ‘Wnco Manco y teitl? Wel, fe ddywedai wrtho chi “Hwnna fan acw” wedi’i fynegi yn iaith y nefoedd.

# Yr Hen Gyrnol - 2

*Dr Elin Jones*

Yn rhifyn diwethaf Cwm*ni* cawsom beth o hanes Cyrnol Lindsay, sgweier Ystrad Fawr, a  Cyrnol Lindsay, Prif Gwnstabl Morgannwg adeg terfysgoedd Tonypandy ym 1910-11. Tybed a sylwoch chi ddarllenwyr craff ar y cliw yn yr erthygl taw dau gyrnol Lindsay gwahanol oeddynt. Cyrnol *Lionel* Lindsay oedd y Prif Gwnstabl, a'r Cyrnol *Henry* Lindsay oedd yn byw yn Ystrad Fawr. Rhannent yr un cyfenw oherwydd brodyr oeddynt.



Roedd y ddau gyrnol Lindsay'n  feibion i'r Lieutenant-Cadfridog Henry Gore Lindsay, Prif Gwnstabl Morgannwg rhwng 1867 ac 1891, ac Ellen ei wraig. Roedd Henry Gore Lindsay o Iwerddon, ond ganed Ellen yng Nghastell Rhiw'r Perrai, yn ferch i Arglwydd Tredegar, un o hen deulu'r  Morganiaid oedd yn perchen ar Dŷ Tredegar a stadau eang ym Mynwy a Morgannwg. Ganed Cyrnol Henry Lindsay yn Nhŷ Tredegar ym 1857 – y mab cyntaf mewn teulu o chwech.

Dengys teitl Henry Gore Lindsay taw milwr oedd e, ac fe fagodd deulu o filwyr. Enillodd tri o'i feibion, Henry, Lionel a Walter, swydd Cyrnol, tra cyrhaeddodd George, y mab ifancaf, safle Cadfridog – a bu ef hefyd yn gyrnol yn ei  amser, wrth gwrs. Gwasanaethodd Henry a George yn y Royal Monmouthshire Royal Engineers. Felly nid un, na dau na thri Cyrnol Lindsay sydd gyda ni yn y teulu hwn - ond pedwar. Yn rhyfedd ddigon, o gofio peryglon eu proffesiwn, cyrhaeddodd pob un o'r brodyr oedran yr addewid. Fe fyddai pob un ohonynt yn ei dro wedi haeddu cael ei ddisgrifio fel 'yr hen gyrnol'!


Magodd Cyrnol Henry Lindsay a'i wraig  Katherine deulu o filwyr yn Ystrad Fawr hefyd. Ganed pedwar mab a dwy ferch iddynt, ac    ymaelododd y meibion yn y fyddin, fel eu tad a'u tad-cu.

Ond ganed y meibion hyn i gyfnod gwahanol iawn – cyfnod y Rhyfel Byd Cyntaf. Dychwelodd yr hen Gyrnol Henry Lindsay at ei gatrawd ar ddechrau'r rhyfel ym 1914, er ei fod yn ei bumdegau hwyr erbyn hynny. Ond ni fu'n rhaid iddo fynd ymhellach na Threfynwy i wasanaethu ei gatrawd, a chafodd ymddeol yn 60 mlwydd oed ym 1917. Aeth y tri mab hynaf gyda'u catrodau i Ffrainc – ac yno y buont farw i gyd.

Collwyd George Walter, y mab hynaf, mewn damwain awyren ym Mehefin 1917. Daethpwyd â'i gorff adre i'w gladdu ym mynwent Eglwys y Drindod Sanctaidd, Ystrad Mynach. Y flwyddyn ganlynol, lladdwyd y ddau fab arall– Archibald Thurston ar 28 Mawrth 1918, a Claud Frederic dri diwrnod yn ddiweddarach. Mae'r ddau wedi eu claddu ym mynwentydd milwrol eang Ffrainc.


Bu'r hen gyrnol Lindsay fyw yn Ystrad Fawr nes iddo farw ym 1935, ar drothwy Rhyfel Byd arall. Roedd e a Mrs Lindsay yn arwain gweithgareddau'r gymuned trwy gydol y dauddegau a'r tridegau, ac roedd e'n warden yr eglwys hefyd.

Ym 1927 yr hen gyrnol a ddadorchuddiodd y go-feb ryfel sydd i'w gweld heddiw gerllaw Ysbyty Ystrad Fawr, ar dir yr hen blas. Safle gwreiddiol y gofeb oedd bryncyn bach wrth ymyl yr heol ger y Royal Oak. Byddai teulu'r plas wedi mynd heibio i'r gofeb ar eu ffordd o Ystrad Fawr i'r eglwys ar y  Sul, a gweld enwau eu meibion yn glir ar y gofeb – ond hynny heb unrhyw deitl milwrol.



Eisteddfod Genedlaethol Yr Urdd , 2019









## Straeon 'Steddfod: Dydd Llun

Cafodd nifer o ddisgyblion Ysgol y Castell fodd i fyw yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd eleni ym Mae Caerdydd.

Yn gynnar iawn fore Llun, roedd parti dawnsio Bl.3 a 4 Mrs Marie Evans yn barod amdani. Gan edrych yn smart iawn yn eu gwisgoedd (wedi'r holl olchi, '*starts*' a smwddio wrth gwrs!) dawnsion nhw ar ysgafn droed gan wneud eu hyfforddwraig yn falch iawn ohonynt.

Nesaf i gystadlu oedd Siena Missen yn yr Unawd Cerdd Dant. Canodd 'Dychymyg' ar y gainc 'Tannau Tawe' gan Elfair Jones. Mae'n gantores brofiadol iawn erbyn hyn ac wrth ei bodd yn canu unawd. Cyn hir, roedd Siena wrthi eto, yn canu gyda'r Grŵp Cerdd Dant y tro hwn. Mae eu hwynebau yn y llun uchod yn dweud y cyfan.

# Ysgol Gymraeg Y Castell

## Straeon 'Steddfod : Dydd Mawrth

Roedd hyd yn oed mwy o'n disgyblion yn mwynhau maes yr Eisteddfod y Dydd Mawrth, gan ddechrau gyda phlant Bl.1a2. Gwelwyd perfformiadau aeddfed iawn gan dri bachgen bach talentog sef Tomos Joseph yn yr Unawd, Alfie Dent yn yr Unawd Cerdd Dant ac Osian Jones yn y Llefaru. Bant â ni wedyn i Sinema 8 i gefnogi ein plant hynaf yn y Grŵp Llefaru, dan arweiniad Mrs Angharad Davies.


Wel, bu syrpreis hyfryd yn disgwyl teulu Ysgol y Castell gydag Osian yn cyrraedd llwyfan yr Eisteddfod Genedlaethol yn adrodd y darn 'Pysgota Sêr', gan ennill y Fedal Arian! Pwy oedd fwyaf cyffrous yn aros tu ôl llwyfan Canolfan y Mileniwm tybed; Osian neu ei hyfforddwraig, Mrs Delyth Jones? Wel, hir yw pob aros Mrs Jones! Llongyfarchiadau mawr i'r ddau ohonynt.

Ar ôl yr holl gyffro, roedd rhaid symud yn gyflym i gefnogi'r Parti Deulais y tro hwn ... sawl cam oedd ar ein 'ffitbits' erbyn hyn?! Ar ôl iddynt ganu mor swynol, roedd rhaid brysio ar draws y bae i'r Stiwdio Ddawns ar gyfer y gystadleuaeth Grŵp Aml-gyfrwng (doedd dim hyd yn oed amser am baned, gan fod y plant angen newid i'w gwisgoedd!) Tro Lois James oedd hi nesaf i ganu'r Unawd Alaw Werin. Unwaith eto, perfformiad hyderus a chadarn ac ar ôl i hithau ddawnsio!

I orffen ein diwrnod prysur, nôl â ni i Ganolfan y Mileniwm am gystadleuaeth ola'r dydd, y corau. Anodd oedd hi i gael sedd, ond dyna brofiad heb ei ail i blant ein côr - i ganu ar lwyfan theatr Canolfan y Mileniwm.







## Straeon 'Steddfod : Dydd Mercher

Diwrnod tawelach ar Ddydd Mercher, gydag un grŵp arbennig iawn yn cael eu hanrhydeddu! Enillodd grŵp creadigol yr ysgol y wobr gyntaf am eu hamineiddiad, stori 'Tisian Trychinebus Dewi'. Wrth lwc, daeth sawl plentyn yn ôl i faes yr Eisteddfod i dderbyn eu medalau aur yng nghwmni Mr Rhodri Harries (yr arweinydd creadigol). Llongyfarchiadau gwresog iddynt ac i Mr Aron Evans a Mrs Lowri Griffiths am eu holl waith caled ac am rannu eu creadigrwydd wrth gwrs.

# EISTEDDFOD YR URDD CAERDYDD AR FRO 2019

Bob blwyddyn mae staff Ysgol y Lawnt yn paratoi cyfleoedd i'r disgyblion gystadlu yn Eisteddfod yr Urdd. Eto eleni llwyddodd y plant i ddod yn gyntaf, ail neu'n drydydd mewn sawl cystadleuaeth.



Llongyfarchiadau mawr i Skye Morgans am ddod yn 3ydd yn yr adran Celf a Chrefft – Print Lliw Bl 3 a 4.



Llongyfarchiadau i Hollie Barry am gyrraedd y rownd gynderfynol o GogUrdd.




Llongyfarchiadau i blant y Gân Actol am berfformiad anhygoel ar lwyfan Canolfan y Mileniwm.

# TAIR CHWAER YN CYNRYCHIOLI CYMRU YN Y R 8fed WUKF PENCAMPWRIAETH KARATE'R BYD.

Pob Lwc Lili-Mai, Maddison a Poppy sydd wedi teithio'r holl ffordd i gynrychioli Cymru ym mhencampwriaeth Karate'r byd allan yn Slovakia.



Mae'r teulu cyfan gan gynnwys Mam, Dad a'r brawd bach sydd yn y meithrin yn cymryd rhan mewn gwersi Karate ac yn mwynhau amser hamdden gyda'i gilydd.

## Ymddeoliad

### 40 Mlynedd o Ysbrydoli Eraill

Yn dilyn gyrfa o dros 40 mlynedd yn Ysgol y Lawnt, mae Mrs Janet Williams wedi penderfynu ymddeol o'i swydd fel arweinydd y cyfnod Sylfaen ac ALNCo. Hoffwn gymryd y cyfle i ddiolch i Jan am ei holl waith a chefnogaeth tuag at bawb yn ystod ei gyrfa.



Mae wir wedi ysbrydoli unigolion ac wedi creu cyfleoedd bythgofiadwy i bobl ifanc yn y Cwm.

Dymunwn ymddeoliad hir a hapus iddi, gan obeithio bydd hi'n ymweld â Chaffi Clic a Chlonc ar fore Gwener bob nawr ac yn y man!



### Ysgol y Lawnt yn Dathlu 25 Mlynedd o "Helping Hands" yn y Cwm, yng nghwmni Peter Karrie.

Yn ystod cyngerdd arbennig yn Ysgol Gyfun Cwm Rhymni dathlodd disgyblion Ysgol y Lawnt ben-blwydd arbennig "Helping Hands" sef elusen sy'n helpu pobl sydd yn dioddef o salwch hirdymor. Diolch i Peter Karrie am gefnogi ac i staff yr Ysgol a "Helping Hands" am noson arbennig.

# Ysgol Gymraeg Cwm Derwen yn ennill Cystadleuaeth Genedlaethol Pêl-rwyd Cymru




Enillodd Ysgol Gymraeg Cwm Derwen yn Oakdale, Coed Duon, Gystadleuaeth Genedlaethol Pêl-rwyd Ysgolion Cynradd Cymru yn ddiweddar.

Dechreuodd y twrnamaint, a gynhaliwyd gan Bêl- rwyd Cymru, ym mis Medi 2018 gydag Ysgol Gymraeg Cwm Derwen yn cymryd rhan mewn nifer o gystadlaethau clwstwr ac yn mynd ymlaen i ennill eu grŵp.

Yn dilyn hyn, llwyddodd y tîm i fod yn fuddugoliaethus drwy Ranbarth Caerffili, Rhanbarthau De-ddwyrain Cymru ac yna symud ymlaen i gymryd rhan yng Nghystadleuaeth Genedlaethol Cymru.

Cynhaliwyd y cystadlaethau cenedlaethol terfynol ar 2 Mai ym Merthyr Tudful a gwelwyd 15 o dimau ysgolion cynradd o bob cwr o Gymru yn cymryd rhan. Ysgol Gymraeg Cwm Derwen oedd y tîm cyntaf i chwarae ar y diwrnod hwnnw yn erbyn Ysgol Howells, Caerdydd. Yn anffodus, fe gollon nhw eu gêm gyntaf o un gôl ond nid oedd hyn wedi eu hatal rhag symud ymlaen. Fe enillon nhw eu dwy gêm nesaf yn erbyn Mynydd Cynffig ac Ysgol Gwenffrwd ac yna dod yn gyfartal yn erbyn Dyffryn y Glowyr. Ar ôl hyn, enillon nhw eu dwy gêm olaf yn eu grŵp yn erbyn St Michaels ac Ystumllwynarth.

Gan ddod â nhw i'r Rowndiau Cynderfynol, enillon nhw yn erbyn West Park gyda sgôr o 9-5 ac yna roedd y gêm derfynol yn erbyn Howells eto, y rhai y collon nhwyn eu herbyn ar ddechrau'r dydd. Aeth y gêm hon i amser ychwanegol ac yn y diwedd y sgôr buddugol oedd 6-4 i Ysgol Gymraeg Cwm Derwen.

Dywedodd y Cynghorydd Philippa Marsden, Aelod Cabinet dros Addysg a Chyflawniad, “Mae'n rhaid i mi longyfarch Ysgol Gymraeg Cwm Derwen am eu cyflawniad gwych o ennill y wobr gyntaf yng Nghystadleuaeth Genedlaethol Pêl-rwyd Ysgolion Cynradd Cymru. Mae eu gwaith caled wedi sicrhau buddugoliaeth iddynt a dylent fod yn falch iawn o'r hyn y maent wedi'i gyflawni. ”

*Erthygl a ymddangosodd yn News Lines, papur Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili*

# Sali Mali yng Nghwm Gwyddon




Ddydd Mercher y 19eg o Fehefin, bu Sali Mali, ffrind plant Cymru, yn dathlu ei phen-blwydd yn 50! Roedd Ysgol Gymraeg Cwm Gwyddon wrth eu bodd yn ymuno yn y dathliadau di-ri yng nghwmni Sbarc a Seren, archarwyr y Gymraeg.



Yn eu gwisgoedd Sali Mali a chrysau oren, llwyddodd 140 o blant y Cyfnod Sylfaen i gymryd rhan mewn gorymdaith o iard yr ysgol i bentref Abercarn i ledaenu'r iaith Gymraeg a dathliadau i'r gymuned.

Yn ystod y dydd bu'r plant wrth eu bodd yn canu caneuon, dawnsio yn y parti a joio jeli a hufen iâ! Diolch i'r plant a'u teuluoedd cefnogol oedd wedi bod wrthi'n casglu darnau 2g i lenwi ffrog Sali Mali.

Diwrnod llwyddiannus wedi ei fwynhau gan bawb. Pen-blwydd Hapus Sali Mali!

*Huw Rowlands*

# Cân Actol Ysgol Gymraeg Caerffili

Er na chafodd Cân Actol yr ysgol y wobr gyntaf yn yr Eisteddfod Ranbarthol, cystal oedd y perfformiad fel y gwahoddwyd y cast i ymddangos ar brif lwyfan Canolfan y Mileniwm. Sbardun i'r thema oedd y datganiad gan Lywodraeth Cymru: *"Bydd 2019 yn Flwyddyn Darganfod ac rydym yn gwahodd ymwelwyr i ddod i weld beth sy'n unigryw am Gymru: y pethau na welwch chi mewn unrhyw le arall yn y byd.*

Yn y gyntaf o ddim llai nag 20 cân fe'n gwahoddwyd ar Bwletin Bethlehem :

Mewngofnodwch nawr i'ch trydar,
Drychwch ar eich ffôn yn awr,
Mae 'na rywbeth mawr ar ddigwydd,
Dyma stori fawr yr awr.

Ac wedi teithio pedwar ban ein gwlad i Flaenau Ffestiniog, Llangrannog, Aberystwyth a "The Little England Beyond Wales", daethpwyd adref i Gaerffili. Cafwyd amrywiaeth o ganeuon bywiog ar donau oedd yn cynnwys "Dwylo Dros y Môr", Edward H, Ceidwad y Goleudy, Hedd Sy'n Llifo, Oes Gafr Eto ac yn y blaen,
Yna, cyrhaeddodd yr actorion a'r gynulliedfa benllanw gyda,

Cofiwn gwerth ein Cymru ni,
Oooooo, Dathlwn, bloeddiwn a wnewn ni
Oooooo, Gwerthfawrogwch gyda ni,
A dewch i weld ein cyfoeth ni,
dewch, ymunwch gyda ni
A dewch i weld ein Cymru ni



Roedd perfformiad y plant yn egnïol o'r dechrau i'r diwedd. Roedd eu gwisgoedd, er yn syml, yn effeithiol iawn. Gan ddefnyddio ond coch, gwyn a gwyrdd pwysleisiwyd Cymreictod y cyflwyniad a hynny wedi'i bwysleisio drwy chwifio'r ddwy faner. Llongyfarchiadau mawr i blant ac athrawon am weithio mor galed

# Brwydr Cwmcarn

Bu llawer o sôn yn y wasg a'r radio ym mis Ebrill am wrthwynebiad gwrth-Gymreig i gynigion y cyngor sir i adeiladu Ysgol Gymraeg newydd ar safle hen Ysgol Uwch Cwmcarn. Adeilad fydd hwn i gymryd lle'r adeilad gwbl anaddas, lle sy'n gartref i Ysgol Gymraeg Cwm Gwyddon ar hyn o bryd.

Mae tipyn o hanes i Ysgol Uwch Cwmcarn, a hwnnw'n mynd yn ôl pum mlynedd ar hugain a mwy. Mae'n mynd yn ôl i'r adeg y penderfynodd Cyngor Sir Gwent wneud i ffwrdd â'r Chweched Dosbarth yn eu hysgolion uwchradd. Ynghyd â hyn oedd y galw am gau rhai o'r ysgolion cyfun am fod cymaint o lefydd gwag yn ysgolion y sir.

Un ysgol roedden nhw am gau oedd Ysgol Cwmcarn. Ymateb llywodraethwyr Cwmcarn i hyn oedd gosod cais gerbron y llywodraeth i gael statws Cynnal â Grant i'w hysgol.

Bu cryn fynd ar ysgolion o'r fath, fel yr ysfa am Academïau yn Lloegr, ond prin, diolch byth, fu'r ymateb yma yng Nghymru. Yma bu mwy o bwyslais ar ysgolion yn cydweithio yn hytrach na chystadlu yn erbyn ei gilydd. Roedd y cynnig hwn o Went yn fêl ar fysedd y llywodraeth Dorïaidd wrth gwrs a chaniatawyd y cais. Diwedd y gân oedd i Ysgol Uwch Cwmcarn aros ar agor, a hynny gyda Chweched Dosbarth am dros ugain mlynedd. Ers hynny, beth bynnag, gwelwyd fod amcanion yr hen sir wedi bod yn gwbl gywir gan y bu'n rhaid i'r ysgol GCAH (Grant Cynnal Addysg a Hyfforddiant) gau yn y diwedd am nad oedd yna ddigon o blant i'w chynnal.

Wedi cyhoeddi bwriad y cyngor sir i adeiladu Ysgol Gymraeg newydd ar y safle, galwodd protestwyr gyfarfod cyhoeddus yn neuadd y gweithwyr Cwmcarn nos Fawrth, y 7fed o Fai. Daeth tua hanner cant o bobol ynghyd ond, er mawr syndod i'r gwrthwynebwyr, roedd tua thraean y gynulleidfa yn rhieni a chefnogwyr Ysgol Gymraeg Cwm Gwyddon, yr ysgol fydd yn symud i mewn i'r ysgol newydd arfaethedig.

Cafodd y protestwyr wybod llawer am werth addysg Gymreig. A chladdwyd nifer o ragfarnau gan roi ar ddeall mai rhywbeth i'w cymuned nhw oedd ysgol cyfrwng Cymraeg, nid darpariaeth ar gyfer dieithriaid o rannau eraill y wlad.

Nos Fawrth, yr 11eg o Fehefin, cynhaliodd RhAG gyfarfod yn Ysgol Cwm Gwyddon i ystyried sut y gellid cefnogi bwriad y sir i ddarparu'r ysgol newydd hon. Yn bresennol ynghyd â swyddogion RhAG, Menter Iaith a Mudiad Meithrin oedd yr Aelod Cabinet (Llafur) dros Addysg, y Cynghorydd Phillipa Marsden, a siaradodd ag arddeliad o blaid y cynllun.

Er mwyn symud yr achos ymlaen, cytunwyd y dylid cyflwyno'n neges am ysgol newydd ar y cyfryngau cymdeithasol. Roedd y rhieni yn amlwg yn wybodus iawn am sut i wneud hyn. Hefyd, cytunwyd manteisio ar lyfryn y Fenter Iaith, "Bod yn Ddwyieithog ym Mwrdeistref Sirol Caerffili", a gynhyrchwyd ar y cyd gydag asiantau eraill. Mae hon yn gyfrol wych sy'n egluro manteision addysg dwyieithog.

Penderfynwyd felly ei dosbarthu mewn clinics, llyfrgelloedd ac ati.

Ond yn bwysicach na hyn, cefnogwyd anogaeth y Cynghorydd Marsden yn ein hannog i sicrhau cynrychiolaeth gref yn y cyfarfodydd ymgynghori cyhoeddus pan fyddant yn cael eu galw. O weld mor huawdl a chall oedd cyfraniad rhieni yn y cyfarfod cyhoeddus, mae lle i fod yn obeithiol am weld cynnydd pan fydd yr awdurdod yn ymgynghori â'r cyhoedd.

Gwyliwch am newyddion am ddatblygiadau pellach yn ystod yr hydref yn y papur hwn.

*Ben Jones*

Croeso i wefan Rhieni dros Addysg Gymraeg! Www.rhag.net. Mae RhAG yn gweithio i wella darpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg i blant ledled Cymru. Ar ein gwefan, gallwch lawr-lwytho adnoddau i'ch helpu i frwydro dros addysg Gymraeg yn eich ardal chi,cadw golwg ar ddatblygiadau a newyddion neu rannu eich profiadau gyda rhieni eraill. Rydyn ni'n dibynnu ar rieni i frwydro dros addysg Gymraeg i'n plant - ymunwch â ni!

# Comisiynydd y Gymraeg

Annwyl Olygydd,

Hoffwn gymryd y cyfle yma i gyflwyno fy hun fel Comisiynydd newydd y Gymraeg.

Mi ddechreuais i yn y swydd ar 1 Ebrill eleni. Fy nod i a'r tîm o swyddogion sy'n gweithio efo fi ydy cynyddu'r cyfleoedd sydd gennych chi i ddefnyddio'r Gymraeg yn eich bywyd bob dydd. Rydyn ni wedi ein lleoli mewn pedair swyddfa; yng Nghaernarfon, Caerdydd, Caerfyrddin a Rhuthun.

Er mwyn gweithio yn y ffordd fwyaf effeithiol bosibl ac er mwyn gwneud yn siŵr ein bod yn cael effaith wirioneddol ar lawr gwlad, mi fyddwn yn gosod blaenoriaethau. Dyma lle rydw i angen eich help chi.

Rydw i'n dŵad yn wreiddiol o Rosllannerchrugog ger Wrecsam, ac yn dal i fyw yn y pentref gyda ngwraig

Llinos. Mae gen i ddarlun clir o beth ydi'r cyfleoedd a'r heriau i ddefnyddio'r Gymraeg yn fy ardal i, ond rydw i angen gwybod sut mae pethau ym mhob rhan o Gymru. Oes yna ddigon o gyfleoedd i chi neu'ch plant i ddefnyddio'r Gymraeg yn gymdeithasol? Ydych chi'n defnyddio'r Gymraeg wrth dderbyn gwasanaethau? Pa mor hawdd neu anodd ydy defnyddio gwasanaethau Cymraeg yn eich ardal chi? Oes yna unrhyw rwystrau i ddefnyddio'r iaith? Beth ydych chi'n credu dylai Comisiynydd y Gymraeg fod yn ei wneud i wella'ch profiad chi o ddefnyddio'r Gymraeg?

Byddwn yn ddiolchgar tu hwnt os gallwch gysylltu â mi gyda'ch sylwadau. Gallwch wneud hynny drwy e-bostio post@comisiynyddygymraeg.cymru neu ysgrifennu ataf i Comisiynydd y Gymraeg, Siambrau'r Farchnad, 5-7 Heol Eglwys Fair, Caerdydd, CF10 1AT.

Yn gywir,

Aled Roberts
Comisiynydd y Gymraeg

**Meinir E Jones** Swyddog Cysylltiadau Cyhoeddus



Aled Roberts o Rosllannerchrugog sydd wedi olynu Meri Huws yn Gomisiynydd y Gymraeg. Bu'n Aelod Cynulliad Democrat Rhyddfrydol dros ranbarth Gogledd Cymru tan iddo golli ei sedd yn etholiadau 2016.

Wedi colli ei sedd bu wrthi, ar ran y Cynulliad Cenedlaethol, yn monitro cynlluniau datblygu'r Gymraeg yr amryw siroedd gan gynghori ar ddilysrwydd y cynlluniau hynny.

Disgwyliwn y bydd y profiad hynny yn allweddol wrth iddo hyrwyddo datblygiad addysg cyfrwng Cymraeg.

## Cyfarfod Blynyddol Cwmni


Nos Lun, 16eg o Fedi am 7:00

Ysgol Gymraeg Caerffili

Croeso Cynnes i Bawb.

**Dewch i rannu eich syniadau a'ch awgrymiadau**

# Colofn Dafydd Islwyn



Cyrraedd Gilfach ar y bws ac yn arafu ger y bwlch rhwng Garej Teiars McIntyre a thafarn Y Capel. Edrych i gyfeiriad Aberbargoed a gweld coed lle bu tomennydd, gwyrddni lle bu düwch. Cofio englyn "Clais" gan y diweddar R. J. Rowlands, Y Bala - un o feirdd Tyrpeg Capel Celyn,

Mae anaf chelir mono – yn llwyr
Wedi llid y dryllio
Er i natur goluro
Y llwybr glas lle bu'r glo.

Teithio i lawr y pentref a sylwi ei fod wedi colli ei sglein wedi i Harri Andrews, y cyn-gynghorwr Llafur ein gadael. Ef yn un o gymeriadau adnabyddus yr ardal yn ei ddydd. Holais fy hun, pwy arall sy'n gysylltiedig â'r lle.

Bu'r awdur Walter Haydn Davies (1902-1984), cyn-brifathro Ysgol Ramadeg Bargod, yn byw yma. Cyhoeddwyd ei ddwy gyfrol, "Ups and Downs", a "The Right Place, The Right Time", yn 1975. Yna "Blithe Ones" yn 1979, yn portreadu bywyd yng Nghwm Bargod Taf, cwm dros Gomin Gelligaer i Gwm Rhymni yn ystod chwarter canrif gyntaf y ganrif ddiwethaf.

Ganwyd George Fisher yng Nghilfach yn 1909 a bu farw yn 1970. Gwnaeth yr athro mathemateg enw iddo ei hun fel dramodydd yn Llangefni, Ynys Môn. Enillodd ddwywaith yn y Genedlaethol am ddwy ddrama hir.

Daw yr Athro W. J. Gruffydd (1881-1954) i'r co' wrth feddwl am Gilfach. Yn 1913 penodwyd Mary Davies (1890- 1938) i Ysgol y Merched, Gilfach Fargod. Tair blynedd ar ddeg cyn iddi gyfarfod â Gruffydd yn Llundain a datblygodd perthynas gariadus rhyngddynt. Cofio dwy ffaith am W. J. Gruffydd. Bu'n athro yn Ysgol Beaumaris, "ysgol wiw Biwmares", fel y dywedodd mewn llythyr, rhwng dechrau 1904 a Haf 1906, fy hen ysgol uwchradd. Flynyddoedd ynghynt bu tad Waldo Williams yn athro ifanc yn yr ysgol.

Y gerdd gynta a glywais i gan W. J. Gruffydd oedd "Sionyn".

Wrth agor ei ysgrif goffa i Alun Hoddinott y cyfansoddwr a anwyd yng Nghilfach ar yr 11eg o Awst 1929 dywedodd Meic Stephens:

"Roedd Alun Hoddinott yn un o'r ychydig gyfansoddwyr Cymreig y mae ei waith yn adnabyddus y tu allan i Gymru. Ac yn cael ei gyfrif yn un o 'r cyfansoddwyr Prydeinig mwyaf cynhyrchiol ac amryddawn erioed." Bu farw ar y 12fed o Fawrth 2008.



***Alun Hoddinott 1929-2008***

Yng Nghilfach y ganwyd Y Parchedig Walter P. John (1910-67) a fu'n weinidog uchel ei barch yn eglwys Castle Street (Bedyddwyr), Llundain fel pregethwr diwylliedig a choeth a rhyddfrydol. Yng nghapel y Presbyteriaid Saesneg yng Nghilfach yn ystod un o gyfarfodydd Cymdeithas Methodistiaid Calfinaidd Cymru - Adran Saesneg - y derbyniwyd Y Parchedig Martyn Lloyd Jones i'r weinidogaeth. Datblygodd ef yn un o brif efengylwyr Prydain. Enw arall a gysylltir â Gilfach ydy Morgan Jones, Aelod Seneddol Caerffili o fis Awst 1921 hyd at ei farwolaeth yn 1939. Fe'i cofiaf ef am mai ef oedd y gwrthwynebwr cydwybodol cyntaf i eistedd yn Nhŷ'r Cyffredin.

Un a fu'n byw yn 46-48, Park Place, Gilfach, tra yn gwasanaethu fel tad Catholig yn yr ardal flynyddoedd yn ôl oedd Yr Esgob Daniel J. Mullins, Cydweli. Flynyddoedd yn ddiweddarach, dychwelodd i Fargod i draddodi darlith gofiadwy am ei gysylltiad agos â Saunders Lewis (1893-1985). Chwaraeodd Tommy G. Jones, Everton, Pwllheli a Bangor City, ei gêm olaf i Gymru ar 23ain o Dachwedd 1949. Yn cyd-chwarae ag ef yn erbyn Gwlad Belg yng Nghaerdydd yn y safle "right half" oedd Ivor Powell, brodor o Gilfach, a oedd yn chware i Aston Villa ar y pryd. Yn ystod haf 1948 fe fu bron i Tommy Jones symud o Everton i chwarae i glwb Roma yn yr Eidal. Mae'r Eidalwyr felly wedi bod yn llygadu prif chwaraewyr pêl-droed Cymru ers dros chwe deg mlynedd.

# Colofn y Dysgwyr

gan Ann Lewis

Mae'n fis Gorffennaf ac mae cyrsiau Cymraeg a phob math o ddosbarthiadau eraill yn dod i ben. Mae'r gwyliau haf ar ddechrau! Ydych chi wedi trefnu mynd i ffwrdd ar wyliau tybed?

Y mis yma rydyn ni'n mynd i ddarllen cerdd am wledydd y byd a sut siâp sy gan bob gwlad pan fyddwn ni'n edrych arni mewn atlas. Ydych chi'n cytuno â disgrifiad y bardd o bob gwlad?

## Lliwiau gan Ifan Gwilym

Palet amryliw
ar y ddesg o'm blaen.

Esgid o saffir mewn awyr glir
yw'r Eidal.
Awstralia

fel darn o'r haul melyn wedi rhedeg
ar dywod aur.
Gwlad yr Iâ yn berl wen yn y môr
a'r Affrig fel pen eliffant bron
gyda stribedi ifori.

Yn y gornel
welingtonsen ddu a'i phen i waered
yw Seland Newydd,
ac mae Iwerddon yn emrallt i gyd.

Ond mae un smotyn bach
fel ceg draig goch yn agor,
a'i liw megis gwaed
– Dyma Gymru.

Mae'r rhyfeddodau hyn i gyd
yn fy Atlas lliwgar i.




*dod i ben : come to an end* *ar ddechrau : about to start* *tybed : I wonder*
*saffir : sapphire* *perl : pearl* *stribedi : strips ( NID streipiau : stripes! )*
*welingtonsen : a wellington* *a'i phen i waered : upside-down* *emrallt : emerald* *megis : like*
*rhyfeddodau : wonderful things*

## Tryweryn

Gyrrwyd y llun hwn at y Golygydd gan fwy nag un person. Roedden nhw i gyd yn awyddus i bawb wybod fod Ysgol Bro Sannan wedi paentio eu cyfraniad hwythau tuag at gofio Tryweryn. A bydd neb, wrth gwrs, yn gallu dileu hwn, chwaith, gan ei fod ar dir yr ysgol!



# Picnic y Tedis Bach / Teddy Bears Picnic

Parc Morgan Jones Caerffili /
Morgan Jones Park Caerphilly
CF83 1AB

Dydd Llun / Monday 08.07.19
10.00am -11.00am

Cyfarfod wrth ymyl y parc dŵr / *Meet near the water park*
Dewch â phicnic, blanced a thedi / *Bring a picnic, blanket and a teddy*
Storiâu, caneuon a chrefft / Stories, songs and craft
**Addas i blant rhwng 0-2 oed / *Suitable for children between 0-2 years old***

katherine.painter@meithrin.cymru
07486 096638
Cymraeg i Blant Caerffili



mudiad meithrin

Cymraeg i Blant
llyw.cymru/cymraeg

CYMRAEG I Blant For Kids

Llywodraeth Cymru Welsh Government




Dydd Iau
Gorffennaf 25
10:00-14:00

Oedran
8-12

@ Ystafell coginio - Y Gwyndy, Cwm Rhymni, Caerffili
(mynedfa trwy'r ganolfan hamdden)

Dewch i greu bwyd picnic a dysgu sgiliau coginio - pobi roll bara, wyau 'scotch', salad tatws, cacen sbwng jam a chnau coco, . Dewch a ffedog, bocsys i cludo gatre, cinio a diod gyda chi.




** Rhaid bwcio cyn Gorffennaf 18 / You must book by July 18 **

**bethanjones@mentercaerffili.cymru 01443820913**

CYMRAEG I Blant For Kids · Menter Iaith Sir Caerffili · MENTRAU IAITH

## Teithiau Clwb Cerdded / Walking routes

**10:00—12:00**





- **Mehefin 12– Bedwas - Cwrdd ym maes parcio Caffi'r Graig CF83 8EA**
  *June 12 – Bedwas - Meet at the Rock Café car park CF83 8EA*
- **Mehefin 19 - Eglwysilan- Cwrdd ym maes parcio Rose and Crown CF83 4JG**
  *June 19 – Eglwysilan - Meet at the Rose and Crown Car Park CF83 4JG*
- **Mehefin 26 - Treharris - Cwrdd yn y maes parcio tu ôl i Stryd Perrot Treharris**
  *Mehefin 26 – Treharris - Meet at the car park behind Perrot Street Treharris*
- **Gorffennaf 3 - Coetir Bargoed - Cwrdd wrth fynedfa Morrisons Bargoed CF81 8NX**
  *July 3 – Bargoed – Meet* at the entrance of Morrisons Bargoed CF81 8NX
- **Gorffennaf 10 - Parc Penalltau - Cwrdd wrth ganolfan addysg Parc Penalltau CF82 7GN**
  *July 10 - Parc Penallta - Meet next to the education centre CF82 7GN*
- **Gorffennaf 17- Cyfarfod Cynllunio - Swyddfa Menter Caerffili**
  *July 17- Planning Meeting - Menter Caerffili Office*
  *Suite 1, Parc St Margaret's, Aberbargod, CF81 9FW*

***Bydd angen gwisgo esgidiau cerdded addas ar gyfer y teithiau.**
*You will need to wear appropriate walking boots for the walks.*

BRAGDY TWT LOL

## Cwrw da Cymraeg a Gwasanaeth Cymraeg



Uned B27 Ystâd Ddiwydiannol
TrefforestCF375YB

Ar agor pob dydd Gwener 09:00 – 17:00.
#Lolffest 6 ar Ebrill 6ed a'r 7fed (12:00 – 01:00)
www.twtlol.com

## Clwb Darllen Dysgwyr Caerffili

Cyfarfod nesa:
Dydd Gwener 12 Gorffennaf

**"Cawl" a Straeon Eraill gan awduron amrywiol**

2 o'r gloch yn Llyfrgell Caerffili

**Cofiwch hefyd am:**
Y bore coffi ym Medwas, Caffi'r Graig
bob dydd Llun o 10.30 ymlaen
A'r bore coffi yn y Malcolm Uphill (Wetherspoons), Caerffili
bob dydd Mawrth o 10 o'r gloch ymlaen

Cyswllt: penneyje961@gmail.com

**Croeso i Bawb**

## Clwb Darllen Cwmni

Llawr Cyntaf
Llyfrgell Newydd Caerffili

2:00 o'r gloch

Gorffennaf 1af: Agor Cloriau
gan John Phillips
Medi'r 9fed: Sesiwn Agored
Hydref 7fed: Llyfr Glas Nebo
gan Manon Steffan Ros
Tachwedd 4ydd: Ysbryd yr Oes
gan Mari Willilams
Rhagyr 2ail: Promenâd y Gwenoliaid
gan Gareth W. Williams

penneyje961@gmail.com

***Croeso Cynnes i Bawb***

## Merched y Wawr Cwm Rhymni

Dydd Mercher,
17$^{eg}$o Orffennaf


**Ymweliad ag Orielau Celf Amgueddfa Genedlaethol Cymru**

11:00 yn y caffi
Taith Tywys yn y Gymraeg

Cinio yn y Ddinas
Teithio ar y Trên

*Addas iawn i ddysgwyr*

Am fwy o fanylion cysylltwch â Gaynor 07984197629
gaynorw555@gmail.com






# Gŵyl Flodau Bethel









